

# Y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## Ein Gweledigaeth

Bod yn Arweinydd Byd o ran Ymateb i Argyfyngau a Diogelwch Cymunedol.

## Ein Cenhadaeth

Ymgysylltu a chysylltu â phobl er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol, ynghyd â'u datblygu a'u hysbrydoli yn hynny o beth.

## Ein Gwerthoedd

Gwneud yr hyn sy'n iawn. Trin pobl â pharch. Gweithredu i safon ragorol.

## Ein Hymrwymiadau

Pedwar Ymrwymiad y manylir arnynt yn ein cynllun strategol pum mlynedd 2022-2027: [Cynllun Strategol 2022-2027](#)



### Ymrwymiad 1: Ein Pobl

We are committed to recruiting, retaining and developing a highly skilled workforce.



### Ymrwymiad 2: Ein Cymunedau

Rydym yn ymrwymedig i gynnal iechyd, llesiant a ffyniant y cymunedau yr ydym yn eu wasanaethu.



### Ymrwymiad 3: Ein Hamgylchedd

Rydym yn ymrwymedig i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.



### Ymrwymiad 4: Ein Dysgu

Rydym yn ymrwymedig, trwy ddysgu sefydliadol, i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio.

## Ein Hamcanion Gwella a Llesiant



Byddwn yn datblygu profiad cadarnhaol i'n pobl gan sicrhau bod llesiant yn flaenoriaeth, a byddwn yn creu gweithle amrywiol sy'n ddeniadol i ymuno ag ef ac sy'n darparu cyfleoedd i ddatblygu a chamu ymlaen.



Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o gael effaith gadarnhaol ar y buddion cymdeithasol ac economaidd hirdymor sy'n deillio o'n busnes ar gyfer ein cymunedau.



Byddwn yn gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.



Byddwn yn ymgorffori cyfleoedd i gipio, cyfleu a gweithredu pob agwedd ar ddysgu sefydliadol, gan feithrin diwylliant o welliant parhaus.



Byddwn yn parhau i gynnal ymarfer data sylfaenol i gefnogi'r gwaith o gysoni strategaethau cynllunio ac ariannol, ac i lywio datblygiad gwelliannau, amcanion a mentrau sy'n canolbwyntio ar reoli risgiau cymunedol.